

---

# Adolygiad o'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol teleffoni

Cynigion ynghylch blychau ffôn cyhoeddus a  
newidiadau eraill

---

## **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 9 Tachwedd 2021

Dyddiad Cau ar gyfer Derbyn Ymatebion: 11 Ionawr 2022

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

**Error! Bookmark not defined.**

# 1. Trosolwg

O dan y rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol (USO) teleffoni, mae'n ofynnol i BT a KCOM ddarparu gwasanaethau teleffoni ledled y DU, gan gynnwys blychau ffôn cyhoeddus. Mae'r defnydd o flychau ffôn cyhoeddus wedi gostwng yn sylweddol, yn enwedig o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y ffonau symudol sydd ar gael ac a ddefnyddir. Fodd bynnag, i'r rhai sydd heb fynediad i linell dir neu ffôn symudol gweithredol, ac i'r rhai mewn ardaloedd sydd â darpariaeth symudol wael, gall blwch ffôn cyhoeddus fod yr unig ddewis ar gyfer gwneud galwadau i ffrindiau a theulu, gwasanaethau llinell gymorth ac, yn bwysicaf oll, cael mynediad at wasanaethau brys.

Bydd newid rhwydwaith ffôn y DU i Brotocol Rhynggrwyd (IP) hefyd yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth blychau ffôn cyhoeddus yn y dyfodol. Bydd yr hen rwydwaith ffôn yn cael ei ddiffodd erbyn mis Rhagfyr 2025, felly bydd angen uwchraddio blychau ffôn cyhoeddus a gosod offer newydd i sicrhau y byddant yn dal i weithio ar ôl symud i IP.

Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, rydym yn bwriadu caniatáu i BT a KCOM gael gwared ar flychau ffôn cyhoeddus nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio'n rheolaidd ac ar yr un pryd diogelu'r blychau hynny y mae pobl yn dal i ddibynnu arnynt. Rydym hefyd yn cynnig newidiadau eraill i foderneiddio a rhesymoli'r rheolau USO teleffoni.

## Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

**Proses newydd ar gyfer asesu'r bwriad i dynnu blychau ffôn cyhoeddus.** Ar hyn o bryd, mae gan awdurdodau lleol y gallu i roi feto ar unrhyw gynigion i dynnu'r blwch ffôn cyhoeddus olaf mewn ardal. Rydym yn cynnig disodli hyn gyda gofyniad ar BT a KCOM i asesu, gan ddefnyddio meini prawf clir a chadarn, a oes angen blwch ffôn cyhoeddus o hyd cyn iddo gael ei dynnu a defnyddio'r asesiad hwnnw i ymgynghori ag awdurdodau lleol. Bydd y meini prawf yn diogelu blychau mewn ardaloedd nad oes ganddynt ddarpariaeth symudol lawn a'r rhai sy'n dal i gael eu defnyddio'n rheolaidd i wneud galwadau.

**Darparu mwy o hyblygrwydd yn y gwasanaethau a ddarperir gan flychau ffôn cyhoeddus.** Mae BT yn cynnig amrywiaeth o ddyfeisiau eraill ar y stryd sy'n darparu gwasanaethau fel galwadau am ddim, gwefru ffonau a wi-fi am ddim – ond nid yw'r dyfeisiau hyn yn cyfrif fel blychau ffôn cyhoeddus ar hyn o bryd. Er mwyn cefnogi BT a KCOM i gynnig gwasanaethau gwell i ddefnyddwyr, rydym yn bwriadu diwygio ein rheolau i roi mwy o hyblygrwydd iddynt yn y gwasanaethau a gynigir o flychau ffôn cyhoeddus, megis caniatáu galwadau am ddim a dileu gofynion i ddarparu mynediad i rifau cyfradd brewiwm a rhyngwladol.

**Sicrhau bod blychau ffôn cyhoeddus yn parhau i weithio os bydd toriad trydan.** Ar hyn o bryd, gellir defnyddio blychau ffôn cyhoeddus o hyd i wneud galwadau pan fydd toriad trydan yn yr ardal. Er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau ar ôl i rwydweithiau gael eu newid i IP, bydd angen gosod offer batri newydd mewn blychau ffôn cyhoeddus. Rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i BT a KCOM sicrhau bod gan flychau ffôn cyhoeddus y mae'n debygol y bydd eu hangen yn achos toriad trydan osodiad batris fel y gellir eu defnyddio o hyd i wneud galwadau mewn argyfwng.

**Dileu'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau ffacs o dan yr USO.** Ni fydd bellach yn ymarferol i BT a KCOM ddarparu gwasanaethau ffacs ar ôl i rwydweithiau gael eu newid i IP. Ychydig iawn o fusnesau sy'n parhau i ddefnyddio ffacs ac mae llawer o wasanaethau amgen ar gael. Felly, rydym yn cywain barn ar dynnu ffacs o'r gofynion USO.

## Cefndir

- 1.1 Sefydlwyd y USO teleffoni, sy'n mynnu darpariaeth gwasanaethau teleffoni ledled y DU, gan gynnwys blychau ffôn cyhoeddus ('PCB'), mewn deddfwriaeth yn 2003. Ei nod yw sicrhau bod gwasanaethau teleffoni'n cael eu darparu i helpu'r rhai mewn ardaloedd anghysbell a gwledig neu gwsmeriaid sy'n agored i niwed, na fyddai'r farchnad efallai'n dewis eu gwasanaethu fel arall.
- 1.2 Mae BT a KCOM wedi'u dynodi'n ddarparwyr gwasanaeth cyffredinol teleffoni ac ar hyn o bryd maent yn darparu tua 21,000 o PCB ledled y DU i gyflawni eu rhwymedigaethau USO.
- 1.3 Y tro diwethaf i ni ymgymryd ag adolygiad o'r rheolau'r PCB oedd 2006.<sup>1</sup> Mae esblygiad technoleg, datblygiadau yn y farchnad ac anghenion newidiol defnyddwyr wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y defnydd o PCB. Yn benodol, mae'r cynnydd mewn argaeledd gwasanaethau symudol a'r defnydd ohonynt wedi arwain at ostyngiad serth yn y defnydd o PCB, gyda nifer y galwadau yn gostwng o tua 800m o funudau yn 2002 i 7m yn 2020. At hynny, mae llawer o flychau'n mynd yn adfeiliedig a gallant fod yn ganolbwynt i fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 1.4 Ar yr un pryd, gwyddom fod rhai PCB yn parhau i ddarparu gwasanaeth pwysig, yn enwedig i'r rhai nad oes ganddynt fynediad i ffôn symudol gweithredol neu'r rhai sydd mewn ardaloedd lle na ellir dibynnu ar ddarpariaeth symudol. Felly, rydym hefyd am sicrhau y bydd y PCB hynny sydd eu hangen yn cael eu diogelu rhag cael eu tynnu ymaith.

## Ein cynigion

- 1.5 Rydym yn pryderu nad yw'r broses bresennol i dynnu PCB yn gweithio mor effeithiol ag y gallai ac rydym yn cynnig meini prawf cryfach yn ein rheolau a fydd yn sicrhau bod PCB y mae eu hangen o hyd yn cael eu diogelu rhag cael eu tynnu. Byddai'r meini prawf arfaethedig yn diogelu PCB lle:
  - i) nad oes darpariaeth gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith symudol; neu
  - ii) mae llawer o ddamweiniau neu achosion o hunanladdiad; neu
  - iii) mae mwy na 52 o alwadau wedi cael eu gwneud dros y 12 mis diwethaf (h.y. gan gyfateb i un alwad yr wythnos); neu
  - iv) os oes amgylchiad eithriadol perthnasol sy'n dangos bod angen y PCB.
- 1.6 O dan y broses arfaethedig, bydd yn ofynnol i BT a KCOM ymgynghori â chyrrff lleol perthnasol ynghylch unrhyw gynnig i dynnu'r PCB olaf ar safle<sup>2</sup> a chymryd eu cynrychioliadau i ystyriaeth. Fodd bynnag, ni fydd awdurdodau lleol bellach yn gallu rhoi feto ar dynnu PCB mwyach. Bydd y broses ddiwygiedig hon yn caniatáu i BT a KCOM dynnu ymaith PCB nad oes eu hangen mwyach yn haws, ac ar yr un pryd diogelu'r PCB sy'n weddill (gan gynnwys y 1,500 o PCB sydd mewn ardaloedd â darpariaeth symudol wael).

---

<sup>1</sup> [Adolygiad o'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol \(ofcom.org.uk\)](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/telecom/121206main.pdf)

<sup>2</sup> Diffinnir safle fel pellter cerdded 400 metr o'r PCB agosaf nesaf.

- 1.7 Bydd hyn yn golygu na fydd rhai ciosgau coch traddodiadol yn cael eu cadw fel PCB mwyach. Er hynny, bydd awdurdodau lleol sydd am gadw ciosg coch yn parhau i gael yr opsiwn i ddefnyddio cynllun 'Mabwysiadu Ciosg' BT.<sup>3</sup> O dan y cynllun, gall awdurdodau lleol (a chynghorau plwyf neu elusennau lleol) brynu ciosgau coch lleol am ffi o £1. Ers i BT lansio'r cynllun, mae dros 6,000 o ciosgau wedi'u mabwysiadu a'u trawsnewid i ystod o wahanol ddefnyddiau, megis llyfrgell neu osod peiriant diffibrilio.
- 1.8 Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn i'r broses ar gyfer tynnu PCB, rydym yn cynnig nifer o newidiadau i'r gofynion o ran gwasanaethau a phrisiau PCB. Mae ein cynigion yn cynnwys:
- diwygio'r gofyniad i PCB fod â phrisiau cenedlaethol unffurf er mwyn rhoi hyblygrwydd i BT a KCOM i gynnig galwadau am ddim gan rai o'u PCB (e.e. mae dyfeisiau 'Hwb Stryd' BT<sup>4</sup> eisoes yn cynnig galwadau am ddim i holl linellau tir a rhifau symudol y DU);
  - dileu'r gofyniad i PCB ddarparu gwasanaeth galwadau i mewn lle cynigir pob galwad allan am ddim;
  - peidio â'i gwneud yn ofynnol i PCB gynnig galwadau i rifau cyfradd premiwm a rhyngwladol bellach; ac
  - ei gwneud yn ofynnol i BT a KCOM asesu a oes angen parhaus am ddefnyddio arian parod mewn PCB cyn dileu cyfleusterau talu gydag arian parod.
- 1.9 Ar hyn o bryd, gellir defnyddio PCB o hyd i wneud galwadau pan fydd toriad trydan oherwydd bod y llinellau'n cael eu pweru o'r gyfnewidfa ffôn leol. Ni fydd hyn yn wir mwyach unwaith y bydd PCB yn cael eu newid i weithredu dros rwydweithiau IP. Gall pobl sy'n defnyddio PCB fynd yn fwy dibynnol arnynt os bydd toriad trydan, o ystyried y tebygolrwydd cynyddol o orfod gwneud galwadau brys o dan y fath amgylchiadau.
- 1.10 Felly, rydym yn cynnig gosod rhwymedigaeth ar BT a KCOM i sicrhau bod gan unrhyw PCB y mae'n debygol y dibynnir arnynt os bydd toriad trydan ddatrysiad mewn lle (e.e. uned batri wrth gefn) sy'n galluogi i alwadau brys barhau i gael eu gwneud am isafswm o dair awr.
- 1.11 Rydym hefyd yn cynnig nifer o newidiadau i resymoli a diweddarau rhai o'r amodau gwasanaeth cyffredinol telefoni eraill sydd ar BT a KCOM. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys diweddarau sut y maent yn adrodd ar eu perfformiad wrth ddarparu'r USO a chywain barn ynghylch a ddylid dileu'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau ffacs o dan y USO.

## Camau nesaf

- 1.12 Nodir manylion ein newidiadau arfaethedig i amodau'r gwasanaeth cyffredinol sydd ar BT a KCOM yn Atodiad 5 ac fe'u hesbonnir yn Adrannau 3 a 4 y ddogfen hon. Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn **11 Ionawr 2022**. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein penderfyniad yn ddiweddarach yng Ngwanwyn 2022.

---

<sup>3</sup> [Cynllun Mabwysiadu Ciosg | BT Business](#)

<sup>4</sup> [Llyfryn Hwb Stryd v4.1.pdf \(bt.com\)](#) (Saesneg)